

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Borthygest

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gref y pennaeth ynghyd â'r staff brwdfrydig yn darparu cwricwlwm cyffrous i ddisgyblion ac yn sefydlu amgylcheddau dysgu hynod ddeniadol ar eu cyfer. Maent yn llwyddo i ddatblygu medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ystod dda o weithgareddau ysgogol a chyffrous. Mae hyn yn ennyn eu diddordeb a sicrhau cynnydd yn eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth yn effeithiol. Er hyn, ar adegau, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n cynnig digon o her i'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn lle diogel ble mae staff yn meithrin parch, lles a gofal y disgyblion, yn ogystal â sicrhau eu balchder o'u cymuned ac o Gymru yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth a'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda. Maent yn hybu'r ysgol fel lle cartrefol a gofalgar, sy'n annog disgyblion i ddangos empathi ac ymddygiad cadarnhaol, gan fwynhau eu dysgu mewn amgylchedd hapus.

Cryfder amlwg yr ysgol yw'r modd mae disgyblion o bob cefndir ieithyddol yn dod i siarad Cymraeg yn fuan. Mae'r pennaeth a'r staff yn gweithio'n ddiwyd er mwyn cefnogi'r disgyblion i barhau i wella eu medrau Cymraeg wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r iaith yn eu dysgu a'u chwarae yn gyson.

Yn ddiweddar, mae staff wedi rhoi cyfleoedd i ddisgyblion rannu syniadau ac awgrymiadau am wahanol agweddau o'r ysgol. Er bod grwpiau buddiol wedi eu sefydlu gan y disgyblion, fel y cyngor ysgol, mae eu dylanwad ar fywyd a gwaith yr ysgol yn parhau yn gyfyng.

Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella yn briodol. Ar y cyfan, mae gan arweinwyr hanes da o roi gwelliannau yn eu lle, sy'n arwain at gynnydd ym medrau'r disgyblion ac yn meithrin eu lles yn dda. Er hyn, nid yw'r trefniadau gwerthuso yn mesur cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw'n glir bob tro os yw'r gwelliannau'n mynd i gael eu cynnal yn gyson dros amser.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Sicrhau bod yr holl weithgareddau dysgu yn herio’r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu, a bod adborth athrawon yn symud y dysgu yn ei flaen**

**A2 Miniogi trefniadau ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella’r ysgol**

**A3 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhelliad o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.